

Y Gronfa Argyfwng Busnes – Ionawr 2022

Nodiadau cyfarwyddyd

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES - DIBEN Y GRANT

Diben y cynllun grant yw cefnogi busnesau yn y sectorau hamdden, twristiaeth, manwerthu a lletygarwch nad ydynt yn talu ardrethi busnes ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer y gronfa Cadernid Economaidd, gyda'u llif arian uniongyrchol a'u helpu i oroesi canlyniadau economaidd cyfyngiadau ychwanegol a gyflwynwyd ar 26 Rhagfyr 2021 sy'n angenrheidiol i reoli lledaeniad Covid-19.

Bwriedir i'r cyllid ymdrin ag effaith busnes o 13 Rhagfyr 2021 hyd at 14 Chwefror 2022. Yn benodol, bydd yr EBF yn cefnogi busnesau sydd naill ai:

i) Grant A: Taliad grant **£1000** i fusnesau lletygarwch, twristiaeth, manwerthu neu fusnesau cadwyn gyflenwi a gweithwyr llawrydd cysylltiedig a gweithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau nad ydynt yn cyflogi unrhyw un heblaw am y perchennog, ac nad oes ganddynt eiddo.

ii) Grant B: Taliad grant ariannol o **£2,000** ar gyfer busnesau lletygarwch, twristiaeth, manwerthu, hamdden a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig sy'n cyflogi staff drwy PAYE (yn ogystal â'r perchennog).

Mae fusnes cadwyn gyflenwi yn cael eu diffinio fel busnes sy'n cynhyrchu 60% neu fwy o'i refeniw gwerthiant gan fusnesau y mae'r cyfyngiadau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Nid ydw wedi gorfod cau ond mae'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith wedi effeithio'n sylweddol ar fy trosiant. Mae effaith sylweddol yn golygu gostyngiad o >40% ym mis Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 o'i gymharu â Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020 (neu gyfnod tebyg o ddau fis os nad oedd y busnes yn masnachu yn Rhagfyr 19 Ionawr 20). Diffinnir busnesau manwerthu fel y rhai a fyddai fel arfer yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi fel y nodir yma <https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-lletygarwch-yng-nghymru-2021-22> i'r cynllun hwn bydd yr un cymhwysedd yn gymwys er na fydd y rhai sy'n talu ardrethi busnes.

Bydd y grant yn agored i geisiadau o ddydd lau, 20 Ionawr am 5.00pm a bydd yn cau ar 14 Chwefror 2022 am 5.00pm.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi eu teilwra, gan gynnwys mynediad at offerynnau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi i lunio diagnostig busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cynngor ariannol wedi'i dargedu a chael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru.

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES – PWY SY'N GALLU GWNEUD CAIS?

Gall busnesau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol fod yn gymwys am grant:

- Roedd busnes yn masnachu cyn 13 Rhagfyr 2021 a byddai'n disgwyl bod yn masnachu tan 14 Chwefror 2022

- Rhaid bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru
- Busnes â throsgiant blynyddol o £10,000 o leiaf
- Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm (>50%)
- Rhaid i fusnesau sy'n derbyn cymorth geisio cadw eu cyflogeion hyd at 14 Chwefror 2022
- Dim ond un cais fesul busnes

Beth rydym yn ei olygu wrth 'weithwyr llawrydd'?

Weithiau gelwir gweithwyr llawrydd yn gcontractwyr. Mae rhai yn rhedeg eu busnesau eu hunain ac fe'u diffinnir yn aml yn hunangyflogedig er eu bod ychydig yn wahanol i weithwyr hunangyflogedig. Gall gweithwyr llawrydd gyflawni sawl swydd ar ran gwahanol gwmnïau, ac yn aml maent yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain. Mae gweithiwr llawrydd yn tueddu i weithio ar nifer o gcontractau byrdymor, gan gynnig gwasanaethau ac amser i wahanol sefydliadau yn gyfnewid am ffi y cytunwyd arni.

Ni fydd busnesau'n gymwys i dderbyn y grant os yw un o'r categorïau canlynol yn berthnasol:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os cyflwynwyd gwelliannau a bod y busnes wedi ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd)
- Naill ai wedi'i ddiddymu neu yn y broses o gael ei ddileu
- Wedi croesi'r trothwy cymhorthdal
- Os nad y busnes rydych chi'n gwneud cais ar ei ran yw eich prif ffynhonnell incwm
- Mae'r busnes yn fusnes hunanarlwyo i lai na 30 o bobl
- Mae eich busnes yn talu ardrethi busnes (mae hyn yn cynnwys os ydych yn derbyn rhyddhad ardrethi)
- Os ydych wedi derbyn cyllid yn ystod y 12 mis diwethaf sy'n fwy na 100% o'ch trosgiant ym mlwyddyn ariannol 2019, ni ddylech wneud cais am y gronfa hon.

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES – SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i wefan eu Hawdurdod Lleol. Os ydych chi'n gymwys, gallwch agor ffurflen gais ar-lein, llenwi pob maes gofynnol a chyflwyno'ch cais.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES – CANLLAWIAU CWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Gwybodaeth am eich busnes

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod yr holl fanylion yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

Wrth gyflwyno nifer y gweithwyr, dyma nifer y staff sy'n gweithio yn y busnes gan gynnwys y perchennog.

Adran 2 - Eich manylion personol

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi'r ymgeisydd / perchennog busnes.

Adran 3 - Effaith y cyfyngiadau eich busnes

Cadarnhewch neu fel arall os yw'r datganiad ar y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes. **Efallai** y bydd awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth/dogfennau i ddangos tystiolaeth o'r gostyngiad amcangyfrifedig hwn mewn trosiant. Hefyd yn yr adran hon, os ydych yn fusnes cadwyn gyflenwi, soniwch sut mae/fydd y cyfyngiadau diweddaraf a gyflwynwyd yn ystod mis Rhagfyr yn effeithio'n **uniongyrchol** ar eich busnes yn y cyfnod rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2022.

Adran 4 – Manylion Banc

Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.

Gallai'r awdurdod lleol ofyn am eich cyfriflenni banc diweddaraf a gwybodaeth bellach i gadarnhau eich manylion banc ac i weld tystiolaeth o'r gweithgarwch masnachu.

Dylid trin y grant hwn fel incwm at ddibenion trethiant.

Adran 5 – Rheoli Cymorthdaliadau

Gwneir gwerth y Cronfa Argyfwng Busnes i chi yn unol ag Erthygl 3.2(4) o Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Bydd angen i chi ddatgan y cymhorthdal hwn i unrhyw gorff dyfarnu cymorth arall sy'n gofyn am wybodaeth gennych am faint o gymorth a gawsoch.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Cychwyn Busnes, Grantiau Ardrethi Annomestig ond nid y Cynllun Cadw Swyddi na'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (os nad ydych chi'n siŵr, rhowch y cymorth ar y rhestr).

Adran 6 – Datganiadau

Darllenwch y datganiadau a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn eu deall ac yn eu derbyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES - BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau data busnes arall. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir, neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, **ni** fyddwn yn prosesu'r ffurflen a gwrthodir y cais.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth/wybodaeth ategol.

Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

Y GRONFA ARGYFWNG BUSNES – AD-DALU GRANT

Cofiwch y gallai'r Awdurdod Lleol ofyn i chi ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol os daw dystiolaeth i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y Gronfa Argyfwng Busnes.